Flintshire Economic Bulletin # 20

Apr-Jun 2014

Datganiad chwarterol yn nodi'r dangosyddion economaidd allweddol ar gyfer y sir.

Cyflogaeth

Roedd y gyfradd ddiweithdra yn 2.1% ym mis Mehefin 2014, gan gynrychioli 2,043 o bobl Sir y Fflint a oedd wedi cofrestru ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith, sy'n lleihad o 592 dros y tri mis diwethaf. Mae ein cyfradd diweithdra yn parhau i fod yn isel o'i gymharu â chyfradd Cymru a Phrydain (2.9% a 2.4% yn y drefn honno). Ond, o'r 2,043 sydd wedi'u cofrestru'n ddi-waith, mae 505 rhwng 18 a 24 oed, gostyngiad o 220 yn ystod y chwarter cyntaf, gan adlewyrchu cyfradd o 4.1% ar gyfer Sir y Fflint (Cymru 5.0% a Phrydain 3.9%).

Swyddi Newydd

Cwmni	Swyddi a Grëwyd	Sector	Lleoliad
John Dale	4	Gweithgynhyrchu	Fflint
MR Martial Arts	2	Hamdden	Fflint
Window Geeks	2	Gweithgynhyrchu / Gwerthiant	Glannau Dyfrdwy
Timpson Out There Events	5	Hamdden	Glannau Dyfrdwy
Kreiga	8	Gweithgynhyrchu	Glannau Dyfrdwy
Double Click	1	Menter Gymdeithasol	Glannau Dyfrdwy
Cheshire Custom Cycles	2	Hamdden	Glannau Dyfrdwy
GDP Energy Ltd	10	Amgylcheddol	Glannau Dyfrdwy
Ralawise	10	Warws	Glannau Dyfrdwy
Comtek Network Systems	3	Electroneg	Glannau Dyfrdwy
Tata Steel	50	Adeiladu	Glannau Dyfrdwy
James Fisher Nuclear	15	Peirianneg	Sandycroft
Envirowise	20	Amgylcheddol	Glannau Dyfrdwy
Direct Packaging Solutions	4	Gweithgynhyrchu	Glannau Dyfrdwy
Delsol	20	Logisteg	Glannau Dyfrdwy
Botanical Group Services	3	Garddwriaeth	Glannau Dyfrdwy

A Welsh version of this document is available on request

Corus Colours	5	Adeiladu	Glannau Dyfrdwy
Intego Packaging	3	Gweithgynhyrchu	Glannau Dyfrdwy
DRB Engineering	4	Peirianneg	Glannau Dyfrdwy
MACP	4	Peirianneg	Glannau Dyfrdwy
Carrey Glass	80	Gweithgynhyrchu	Hawarden
Cyfanswm	**255**		

Cefnogi Busnesau - Penawdau

Perfformiad Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy

Targed o 7,000 o swyddi newydd/wedi'u diogelu yn yr ardal dros 5 mlynedd (2012-2017) a disgwylir i 5,000 o'r swyddi gael eu creu o ganlyniad i ddatblygiad Porth y Gogledd.

Crynodeb o Berfformiad 1 Ebrill, 2012 - 30 Mehefin, 2014

Nifer yr Ymholiadau Ardal Fenter Newydd	-	**88**
Cyfanswm Swyddi a Grëwyd	-	**1496**
Cyfanswm Swyddi a Ddiogelwyd	-	**1896**
Cyfradd Trosi Ymholiadau	-	**60%**

Cyd Gynllun Prentisiaeth Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy

Yn ystod y cylch tair blynedd, bydd y cynllun yn cefnogi 60 o brentisiaid i gael prentisiaeth safon aur mewn meysydd gweithgynhyrchu uwch. Bydd y cynllun yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael mewn ymdrech i recriwtio'r dalent lleol mwyaf disglair ir parth a sicrhau y gallwn ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen gan fusnesau lleol. Bydd y prentisiaid yn cael eu cyflogi gan Goleg Cambria i leihau'r baich ar gwmnïau lleol.

Ardaloedd a Gynorthwyir a Defnyddio Cymorth Rhanbarthol

Ardaloedd a Gynorthwyir yw'r ardaloedd hynny lle gellir cynnig cymorth rhanbarthol i fentrau, o fewn rheolau cymorth gwladol y Comisiwn i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau cymwys mewn sectorau busnes allweddol a rhai prosiectau strategol bwysig y tu allan i'r rhain. Mae›n helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf, creu swyddi, ymchwil, datblygu ac arloesi a rhai prosiectau refeniw cymwys ledled Cymru.

Mae cais Sir y Fflint wedi'i dderbyn a'i gadw heb ei ddiwygio ac mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben. Mae cadw statws Ardaloedd a Gynorthwyir yn sicrhau cynnig parhaus y Lwfansau Cyfalaf Uwch o £70m a ganiateir yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy.

Mae BIS wedi cyhoeddi'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU ar gyfer 2014-2020 sydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd; mae copi ar gael drwy'r ddolen ganlynol:https://www.gov.uk/government/consultations/assisted-areas-map-2014-to-2020-stage-2.

Diogelu swyddi lleol mewn Becws yn Sir y Fflint

Mae agwedd ar y cyd gan gynnwys Brake Brothers, Cyngor Sir y Fflint, Llywodraeth Cymru a David Wood Baking Limited, wedi datblygu pecyn a fydd yn sicrhau bod gweithgareddau gweithgynhyrchu yn y ffatri Creative Foods ym Mharc Aber, y Fflint yn parhau, gan ddiogelu 138 swydd y gweithlu presennol.

Mae›r ffatri, sy'n eiddo i Brake Brothers, yn cynhyrchu ystod o brydau a baratowyd ar gyfer y sector lletygarwch. Yn dilyn adolygiad mewnol, mae Brake Brothers wedi penderfynu canolbwyntio ar weithgareddau mewn rhannau eraill o'r cwmni; o ganlyniad, ceisiwyd dod o hyd i brynwr ar gyfer Creative Foods fel busnes gweithredol. Mynegodd nifer o gwmnïau ddiddordeb, gyda David Wood Baking Limited o Leeds, yn y pen draw yn cael ei ddewis fel y prynwr a ffafrir.

Cymunedau yn Gyntaf – Llwyddiant Entrepreneuriaeth Busnes

Dathlodd Clwb Menter Sir y Fflint ddeunaw mis o lwyddiant entrepreneuriaeth busnes ddydd Gwener 6 Mehefin yng Ngholeg Cambria. Mynychodd dros saith deg o unigolion y digwyddiad gan gynnwys yr wyth busnes newydd sydd wedi dechrau masnachu gyda chefnogaeth y rhaglen.

Band Eang Cyflym Iawn i Fusnesau

Mae band eang cyflym iawn yn galluogi busnesau i weithio'n fwy effeithlon gyda chyflymder llwytho a lawrlwytho cyflymach, gan leihau teithio, helpu i greu swyddi ac ehangu busnesau. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd ecsbloetio llwyddiannus isadeiledd band eang cyflym iawn ar gyfer ei fusnesau ac mae wedi llofnodi Siarter Ymelwa Band Eang Cyflym Iawn i weithio fel partner gyda Llywodraeth Cymru a chydweithio gyda Chynghorau eraill Cymru wrth gyflwyno cymorth Ymelwa Band Eang Cyflym Iawn.

Y nod yw:

- helpu i wella ymwybyddiaeth busnesau am ymelwa Band Eang Cyflym Iawn ledled Cymru.
- esbonio sut i fanteisio i'r eithaf ar Fand Eang Cyflym Iawn a thechnolegau ar gyfer busnesau
- cynnig canllawiau ar-lein rhad ac am ddim i roi gwybod am y manteision a'r technolegau sy'n gysylltiedig â Band Eang Cyflym Iawn.
- cyfeirio at gyngor pellach yn ymwneud â Band Eang Cyflym Iawn.

I gael gwybod pryd y bydd eich busnes yn cael Band Eang Cyflym Iawn ewch i http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/

2014 Digwyddiadau yn y dyfodol

- Fforwm Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Days Hotel - Medi
- Uwchgynhadledd Polisi Gogledd Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach, Pafiliwn Llangollen - 2 & 3 Hydref
- Rali Cymru GB 14-17 Tachwedd
- Digwyddiad Ymwybyddiaeth Diwydiant 13 a 14 Tachwedd, Parc Gwasanaeth Toyota, Glannau Dyfrdwy
- Lansio Wythnos Fusnes Sir y Fflint 7 – 17 Hydref

Nifer y Ceisiadau Cynllunio a Dderbyniwyd

Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Cyfanswm
300				**300**

Caiff Adroddiad Economaidd Sir y Fflint ei baratoi yn chwarterol gan Dîm Datblygu Busnes Cyngor Sir y Fflint. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rachael Byrne, Rheolwr Datblygu Busnes:- Ffôn 01352 703318 neu e-bostiwch rachael.byrne@flintshire.gov.uk

A Welsh version of this document is available on request

Adroddiad Economaidd Sir y Fflint - Bwrdd Gwaith Dangosyddion Perfformiad
C1
1 Ebrill 2014 – 30 Mehefin 2014

Caiff Adroddiad Economaidd Sir y Fflint ei baratoi yn chwarterol gan Dîm Datblygu Busnes Cyngor Sir y Fflint. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rachael Byrne, Rheolwr Datblygu Busnes:- Ffôn 01352 703318 neu e-bostiwch rachael.byrne@flintshire.gov.uk

Gwyrdd	**Sir y Fflint yn gwella o'i gymharu â'r chwarter blaenorol**
Oren	**Sir y Fflint yn gwaethygu o'i gymharu â'r chwarter blaenorol**
Melyn	**Dim newid i Sir y Fflint o'i gymharu â'r chwarter blaenorol**

Mesur Dangosydd	Flintshire							Cymru	Prydain	Sylwadau ar Berfformiad
	C1 14/15	C4 13/14	C3 13/14	C2 13/14	C1 13/14	C4 12/13	C3 12/13			
Lefelau Diweithdra	**2.1%**	2.7%	2.7%	3.1%	3.0%	3.3%	3.1%	**2.9%**	**2.4%**	Mae diweithdra yn parhau i fod yn isel o gymharu â ffigurau cenedlaethol a'r DU
Nifer o Hawlwyr JSA	**2043**	2635	2595	2950	2898	3,209	2,975	x	x	Lefelau uwch o hawlwyr - 592 yn fwy na'r chwarter blaenorol
% Hawlwyr JSA 18-24	**4.1%**	5.9%	5.8%	6.9%	6.4%	7.5%	7.5%	**5.0%**	**3.9%**	O blith y 2,043 o hawlwyr JSA, mae 505 rhwng 18-24 oed
Nifer y swyddi a grëwyd	**255 200 wedi'u diogelu**	177	112 newydd 30 wedi'u diogelu	537 newydd 946 wedi'u diogelu	371 newydd 200 wedi'u diogelu	142 newydd 1300 wedi'u diogelu	73	x	x	Nid yw'r wybodaeth yn gynhwysfawr. Casglwyd data o ddatganiadau i'r wasg a gwybodaeth leol gyhoeddus.
Nifer y Swyddi a gollwyd	**0**	100	12	146	0	50	76	x	x	Dim y chwarter hwn
Nifer y digwyddiadau ac unigolion	**5 digwyddiad 402 unigolyn**	11 digwyddiad 928 unigolyn	20 digwyddiad 2206 unigolyn	9 digwyddiad 501 unigolyn	5 digwyddiad 287 unigolyn	x	x	x	x	Digwyddiadau wedi'u darparu drwy Gyngor Sir y Fflint, Cymunedau'n Gyntaf, MDA, BEN a sefydliadau partner